OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 2649 (Cy 260)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cylchfan Kingsland i Gyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed *26 Medi 2014*

Yn dod i rym *3 Hydref 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig, a chyfyngu arno, ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cylchfan Kingsland i Gyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, Ynys Môn) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 05.00 o'r gloch ar 3 Hydref 2014 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" (*"the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cylchfan Kingsland a Chyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, yn Sir Ynys Môn a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

Atal Dros Dro

7. Mae darpariaethau Erthygl 3 o Orchymyn Cefnffordd yr A55 (Caergybi, Ynys Môn) (Terfyn Cyflymder o 50 mya a Gwahardd Cerddwyr) 2001**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4, drwy hyn wedi eu hatal dros dro yn ystod yr amserau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Medi 2014.

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S 2001/1633/W111

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darnau cyfan o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin y gefnffordd wrth y Cyfnewidfeydd yn :-

Cyffordd 2, Tŷ Mawr;
Cyffordd 3, Pencaledog;
Cyffordd 4, Dalar Hir;
Cyffordd 5, Treban;
Cyffordd 6, Tyrpeg Nant;
Cyffordd 7, Cefn Du.

ATODLEN 2

Terfyn cyflymder o 50 mya dros dro

1. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 3.1 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, hyd at bwynt 4.2 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du.

2. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.9 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir, hyd at bwynt 4.0 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir.

3. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.2 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir, hyd at bwynt 2.3 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir.

ATODLEN 3

Terfyn cyflymder o 30 mya dros dro

1. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 4.2 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 7, Cyfnewidfa Cefn Du, hyd at ganolbwynt Cyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant.

2. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 4.0 cilometr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir, hyd at ganolbwynt Cyffordd 5, Cyfnewidfa Treban.

3. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 2.3 cilometr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 4, Cyfnewidfa Dalar Hir, hyd at ganolbwynt Cyffordd 3, Cyfnewidfa Pencaledog.

4. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Kingsland i ganolbwynt Cyffordd 2, Cyfnewidfa Tŷ Mawr.

ATODLEN 4

Terfyn Cyflymder o 10 mya dros dro

1. Y darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a'r dwyrain y geffnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 5, Cyfnewidfa Treban i ganolbwynt Cyffordd 6, Cyfnewidfa Tyrpeg Nant.

2. Y darnau o gerbytffyrdd tua'r gorllewin a'r dwyrain y geffnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 2, Cyfnewidfa Tŷ Mawr, hyd at ganolbwynt Cyffordd 3, Cyfnewidfa Pencaledog.